

Summary statistics: Nifer y busnesau sydd wedi cofrestru: 10,724; Nifer yr unigolion sydd wedi cofrestru: 21,938

Rhwydwaith Arddangos

Canolbwyntio ar wella proffidioldeb busnes drwy groesawu ynni adnewyddadwy

Bu prosiect safle ffocws a gynhaliwyd yn ddiweddar ar Fferm Trebared, Aberteifi, yn canolbwyntio ar yr arbedion ariannol a manteision amgylcheddol sy'n ymwneud ag integreiddio ynni adnewyddadwy ar fferm laeth.

Dair blynedd a hanner yn ôl, roedd y teulu Phillips yn talu £14,000 y flwyddyn i'w cyflenwr trydan. Mae'r bil wedi gostwng i £7,000 ers i'r fferm fuddsoddi mewn system solar 30kW, tyrbin gwynt 20kW a boiler biomas.

Yn ystod y prosiect, defnyddiwyd adnodd i gofnodi data i fonitro defnydd dros gyfnod o wyth diwrnod ar ddiwedd 2018. Roedd y canlyniadau'n dangos bod diffyg cydbwysedd yn y system.

Mae costau trydan ar fferm laeth o faint cyfartalog oddeutu £55-70 y fowch yn nodweddiadol, ond gall hyn amrywio rhwng gwahanol systemau. Yn ogystal â lleihau costau trydan, mae potensial i ynni adnewyddadwy ar y fferm i leihau ôl troed carbon y fferm.

Allbynnau Allweddol y Prosiect:


- Canfod cyfleoedd i wella effeithlonrwydd
Cyfrannu tuag at leihau ôl troed carbon y fferm
Cynyddu proffidioldeb drwy sicrhau'r defnydd gorau posibl o adnoddau adnewyddadwy ar y fferm

Academi Amaeth

Mae rhaglenni Busnes ac Arloesedd a Rhaglen yr Ifanc yr Academi Amaeth wedi ysbrydoli ei aelodau gyda theithiau astudio i'r Iseldiroedd a Gwlad yr Iâ i edrych ar ffyrdd newydd o weithio, modelau busnes newydd ac i ysbrydoli mentergarwch a meithrin sgiliau arweinyddiaeth.



- Roedd rhai o'r busnesau a'r sefydliadau arloesol a welwyd yn yr Iseldiroedd yn cynnwys:
Fferm laeth sy'n arnofio
Grŵp Vencomatic
Fferm diwlipau
Lely



- Roedd rhai o'r busnesau a'r sefydliadau arloesol a welwyd yng Ngwlad yr Iâ yn cynnwys:
Gwesty Efstidalur Il Farm Hotel
Bwyty a Hufen Iâ
Fferm Domatos Frioheimar
Cig Oen Gwlad yr Iâ
Melin Wlân Uppspuni

Partneriaeth Arloesi Ewrop yng Nghymru (EIP Wales)

27 O BROSIECTAU WEDI CAEL EU CYMERADWYO yn gweithio gyda 142 O FFERMWYR A CHOEDWIGWYR

Dechreuodd prosiect newydd yn ystod y cyfnod hwn, sef 'Datblygu ffordd newydd o fesur effeithiau triniaethau agronomeg ar laswellt yn sydyn'.




Mae mwy o bwyslais yn cael ei roi ar fesur y borfa er mwyn pennu stoc porthiant a chyfraddau stocio gyda'r bwriad o gynyddu effeithlonrwydd ac incwm y busnes. Fodd bynnag, gall hyn fod yn dasg lafurys sy'n cymryd llawer o amser i'w gwblhau gan ddefnyddio mesurydd plât.

Bydd diweddariadau'n cael eu cyhoeddi ar wefan Cyswllt Ffermio wrth i'r prosiect fynd yn ei flaen.

Cymorthfeydd

23 CYNHALIWDY O GYMORTHFEYDD gyda 158 O FYNICHWYR



Roedd busnes sy'n cadw maes carafanau yn ffinio ar y fferm yn un o'r busnesau a fynychodd gymhorthfa. Roedd y safle eisoes wedi'i sefydlu ond roedden nhw eisiau cyngor ynglŷn â sut i farchnata'r busnes a'i hyrwyddo ar y cyfryngau cymdeithasol.

"Rydwi wedi dysgu mwy am dechnegau marchnata yn ogystal â beth ddylwn i'w wneud a beth i'w osgoi er mwyn hyrwyddo fy musnes."

Y Gwasanaeth Cyngori

Nifer y busnesau sydd wedi derbyn cyngor drwy Gategori Busnes y Gwasanaeth Cyngori yn ystod y cyfnod.


Mae 146 o unigolion wedi derbyn cyngor un i un drwy'r Categori Busnes y Gwasanaeth Cyngori yn ystod y cyfnod hwn. Mae 14 o grwpiau wedi derbyn cyngor drwy'r Categori Busnes y Gwasanaeth Cyngori yn ystod y cyfnod hwn.

Adborth gan fusnesau yn ymwneud â darpariaeth y cyngor a gafwyd:

- "Bydd y cyngor a gawsom yn helpu'r busnes i wrthsefyll y pwysau sy'n cael ei achosi gan y sefyllfa economaidd bresennol yn y diwydiant llaeth. Byddai gennym ddiddordeb derbyn hyfforddiant pellach yn ogystal â hyfforddiant fel grŵp".
"Mae bob amser yn braf cael pâr arall o lygaid i edrych dros y busnes, nid yn unig i gynnig syniadau ac awgrymiadau newydd ynglŷn â sut y gellir gwella, ond hefyd er mwyn cadarnhau bod rhai o'r dulliau presennol yn gywir. Pan fyddwch chi'n gweithio'n galed mewn busnes sy'n eithaf unig, mae perygl y byddech yn gallu gadael i'ch perfformiad ddirywio heb sylweddoli, felly rydw i'n credu'n gryf mewn manteision gwahodd cyngor allanol er mwyn craffu ar y busnes er mwyn osgoi hynny."

Bu Chris Brooks o Westflight yn ymweld â dau grŵp trafod yng Ngheredigion i drafod defnydd o ynni. Eglurodd Chris y broses o gludo'r yr ynni o ble bynnag y caiff ei gynhyrchu i'r ffermydd unigol, ac roedd rhai aelodau'n synnu faint o fusnesau yr oedd yr ynni'n gysylltiedig â nhw cyn cyrraedd ar y fferm.

Rhannodd Chris ystadegau yn ymwneud â'r diwydiant llaeth, yn deillio o ffigyrau AHDB a gasglwyd dros gyfnod o ugain mlynedd. Ar y cyfan, roedd yn dangos lleihad o oddeutu 15.6% yn y fuches odro gyfartalog, ond roedd cynnyrch cyfartalog wedi cynyddu tua 23%. Er hynny, dim ond 4.3% oedd cyfanswm y cynnyrch wedi cynyddu.



Nid oedd prisiau llaeth yn 2000 wedi newid rhyw lawer o'i gymharu â heddiw, gyda throsolwg bras yn disgrifio bod Cost Cynhyrchu yn 2017/18 yn 4.2% o'i gymharu â 3.9% heddiw.

Eglurodd fod costau trydan wedi cynyddu 70% rhwng 2000-2019. Roedd yn rhagweld y bydd costau prynu ynni yn parhau i godi, o bosibl hyd yn oed ar gost o 0.25+ fesul kwh erbyn 2025. Gofynnodd Chris i'r grŵp ystyried a fyddai pris eu llaeth yn cynyddu ar yr un raddfa. Yna bu'r grŵp yn cwblhau ymarfer yn edrych ar gostau trydan ar sail ceiniog y litr a meicnodi costau trydan rhyngddynt, gan beri syndod i rai ohonynt. Bu Chris yn trafod yr holl elfennau a oedd yn cael eu cynnwys mewn bil unigol er mwyn sicrhau bod y ffermwyr yn deall yn union am beth maen nhw'n ei dalu.

Agrisgôp

Gan gydweithio o fewn grŵp Agrisgôp, gall aelodau ddysgu sgiliau rheolaeth newydd, cael mynediad at wybodaeth arbenigol ac archwilio a datblygu dyfodol hyfw ar eu cyfer eu hunain, eu teuluoedd a'u busnesau.



Cynhyrchu seidr

Rhedeg lladd-dy

O'r fferm i'r plât

Cynhyrchu bocsys cig

Ynni adnewyddadwy

Arallgyfeirio

Astudiaeth Achos

Ffermwyr biff yn cymryd rheolaeth dros y gadwyn gyflenwi gyda chymorth Agrisgôp



Mae cydweithio yn caniatáu i fridwyr Gwartheg Byrgorn yng ngorllewin Cymru ychwanegu gwerth at eu gwartheg drwy werthu cig yn uniongyrchol i'w cwsmeriaid.

Mae Hywel ac Emma Evans, sy'n cadw buches Derw ar fferm Wernyard, ger Aberteifi, wedi ymuno â bridwyr Gwartheg Byrgorn eraill, Brian ac Eiryth Thomas ac Alma James ac Anthony James i greu busnes Welsh Shorthorn Beef, sy'n gwerthu biff mewn blychau.

Daethant at ei gilydd fel aelodau o Grŵp Agrisgôp Cyswllt Ffermio, dan arweiniad yr hwylusydd, Lilwen Joynson.

Cliciwch yma i ddarllen y stori yn llawn.

Digwyddiadau Ymwbyddiaeth Strategol

Gweler isod rai o'r Digwyddiadau Ymwbyddiaeth Strategol a ddarparwyd yn ystod y cyfnod yn ymwneud â'r thema Busnes.

Grant Cynhyrchu Cynaliadwy (SPG) – 6 digwyddiad



Cynhaliwyd trafodaethau yn ymwneud â sut i wella rheolaeth maetholion ar y fferm a chynyddu effeithlonrwydd adnoddau ar y fferm, gan gynnwys pa fuddsoddiadau fyddai fwyaf buddiol a sut y byddai modd gwneud gwahaniaethau effeithlon i fusnesau cleientiaid.

Gweithdai PDP – 8 digwyddiad



Bu Swyddogion Datblygu yn cynorthwyo cleientiaid i greu eu Cynlluniau Datblygu Personol, gan gynnwys creu targedau a nodau ar gyfer y busnes, llunio targedau i sicrhau bod busnesau'n parhau i ddatblygu a darparu canlyniadau gwerthfawr.

Ynni Adnewyddadwy – 5 digwyddiad



Bu Chris Brooks yn rhannu gwybodaeth ynglŷn â sut i arbed arian ar filiau trydan. Roedd y cyngor yn berthnasol i bob menter ac anogwyd pob busnes i fuddsoddi amser i sicrhau eu bod yn cael y fargen orau o ran eu tariffau trydan.

Diogelu eich busnes fferm ar gyfer cenedlaethau'r dyfodol – a yw menter ar y cyd yn opsiwn ar eich cyfer chi? – 4 digwyddiad



Roedd y digwyddiadau hyn yn pwysleisio pwysigrwydd cynllunio ar gyfer y dyfodol. Rhoddwyd gwybodaeth ar y gwahanol fathau o gytundebau menter ar y cyd gan yr arbenigwyr Wendy Jenkins, Cara a Nerys Llewelyn Jones, Agri Advisor.

Sioe Arloesi ac Arallgyfeirio

Datblygwyd y digwyddiad hwn gan fod canfyddiadau wedi dangos fod bron i 40% o ffermydd Cymru'n cynnwys rhyw fath o fenter arallgyfeirio. Nod y digwyddiad oedd arddangos yr ystod o gyfleoedd sydd ar gael i berchnogion busnesau fferm i greu ffrydiau incwm newydd. Bu siaradwyr gwadd yn rhannu eu profiadau wrth arallgyfeirio a'r rhwystrau a brofwyd ganddynt. Yn ogystal ag arddangos arloesedd ym myd amaeth, roedd cyfle i hyrwyddo gwasanaethau Cyswllt Ffermio a chafodd ymwelwyr eu cyfeirio at ardaloedd perthnasol er mwyn symud eu busnesau yn eu blaen.

Cyraeddiadau allweddol y digwyddiad:



O STONDINAU ARDDANGOS



O SIARADWYR



O BOBL WEDI MYNYCHU

100% BYDDAI 100% O'R MYNYCHWYR, ARDDANGOSWYR A STAFFYN AWYDDUS I WELD Y DIGWYDDIAD YN CAEL EI GYNNAL ETO

Cyfnewidfa Rheolaeth

Cyfnewidfa Rheolaeth David Phillips, Awst 2019

Pwnc: Cynhyrchu coed Nadolig i'w hallforio ar raddfa fawr, cynhyrchu dail Ffynidwydd Llwydlas a sioe fasnach Langeso

Gwlad: Denmarc



Yn ystod mis Awst, teithiodd David Phillips i Ddenmarc i gwblhau ail ran ei gyfnewidfa rheolaeth. Gan mai Denmarc yw'r cynhyrchwyr a'r allforwyr mwyaf ar gyfer coed Nadolig yn Ewrop, roedd David yn awyddus i ddatblygu gwell dealltwriaeth o'u dulliau cynhyrchu ar raddfa fawr a'r diwydiant yn ei gyfanrwydd, trwy gwrdd ag amrywiaeth o gwmnïau sy'n ymwneud â'r diwydiant.

Bu David yn ymweld â dwy blanhigfa; fferm goed ar raddfa ganolig; fferm goed ar raddfa fawr a sioe fasnach Langeso. Mae'n gobeithio rhoi nifer o'r sgiliau a'r wybodaeth a ddysgodd fel rhan o'r daith ar waith ar ei fferm goed.

Cliciwch yma i ddarllen yr adroddiad llawn.

Rhaglen Fentora



476
O FENTAI WEDI CAEL EU MENTORA



82
O FENTAI NEWYDD YN YSTOD Y CYFNOD

Y pynciau mwyaf poblogaidd y bu pobl yn ymgeisio am gyngor ar eu cyfer oedd:

OLYNIAETH



IECHYD A DIOGELWCH AR Y FFERM



CYFLEOEDD ARALLGYFEIRIO



CADW GWENYN



Mae Olyniaeth wedi dod yn un o'n pynciau mentora mwyaf poblogaidd gyda 67 o geisiadau hyd yma; **14** yn ystod y cyfnod hwn yn unig.

Mae nifer o unigolion wedi ymgeisio ar gyfer mentora ar olyniaeth er mwyn arwain eu busnesau yn eu blaen a chreu dyfodol hyfyw. Dyma rai enghreifftiau:

"Rydw i eisiau rhoi cynlluniau ar waith i gyflwyno fy mab i'r busnes"

"Gyda dau sibling nad ydynt yn ffermio a gan nad ydym wedi trafod olyniaeth hyd yma, rydw i'n pryderu am wneud unrhyw fuddsoddiadau ar y fferm."

"Rydw i eisiau trafod olyniaeth oherwydd er fy mod yn bartner yn y busnes, rydw i'n cael trafferth gwneud newidiadau oherwydd aelodau eraill o'r teulu."

"Rydw i'n awyddus i ddechrau ystyried olyniaeth a chyfeiriad y busnes at y dyfodol."

Teithiau Astudio



Cwblhawyd **4** taith astudio yn ystod y cyfnod.

Ym mis Medi, bu **Grŵp Gwartheg Dyffryn Conwy** yn ymweld â phum fferm bïff yn yr Alban i weld sut maen nhw wedi addasu eu systemau, gan gynnwys newid bridiau ac addasu eu systemau gaeafu.

Teithiodd **Grŵp Ffermwyr Llaeth NextGen** i Loegr a'r Alban i ddysgu gan bedwar ffermwr llaeth llwyddiannus. Bu'r grŵp hefyd yn ymweld â Fferm Glenarth Farm sydd wedi arallgyfeirio i ffermio dofednod, i edrych ar bosiblwydd arallgyfeirio yn y dyfodol i gadw dofednod gan fod prisiau llaeth yn amrywio drwy gydol y flwyddyn.

Ar ddiwedd mis Medi, bu **Cymdeithas Tir Glas Aberhonddu** yn ymweld â'r Alban ar daith astudio. Roedd y daith yn cynnig cyfle i'r grŵp o 20 aelod i ymweld â ffermwyr blaengar yn yr Alban, gan ddysgu ganddynt a rhoi'r cyfle perffaith iddynt drafod arloesedd a rheolaeth effeithiol gyda rhai o ffermwyr mwyaf cynhyrchol yr Alban.

Ar daith deuddydd ym mis Hydref, bu **Grŵp CFfl Mydroilyn** yn ymweld â'r Alban i weld sut mae nifer o fusnesau amaethyddol wedi arallgyfeirio er mwyn atgyfnerthu eu busnesau. Buont yn ymweld â dau fusnes sydd wedi arallgyfeirio mewn sawl ffordd, gan gynnwys arallgyfeirio i faes twristiaeth, gwerthu blychau cig a menter chwaraeon dŵr.

Cynlluniau Datblygu Personol

CRÛWYD **396**

O GYNLLUNIAU DATBLYGU PERSONOL YN YSTOD Y CYFNOD HWN

CRÛWYD **337**

YN YSTOD MIS HYDREFYN UNIG o ganlyniad uniongyrchol i ganlyniad y cyfnod ymgeisio ar gyfer sgiliau, gan fod pobl angen Cynllun Datblygu Personol i ymgeisio ar gyfer cyrsiau hyfforddiant wedi'u hariannu.

E-ddysgu

Mae rhai o'r cyrsiau e-ddysgu a gwblhawyd yn ystod y cyfnod yn cynnwys:

CYNLLUNIO BUSNES



MEINCNODI FFERM



CYLLID FFERM



GWNEUD TRETH YN DDIGIDOL AR GYFER TAW



Cliciwch [yma](#) i fynd i'r wefan.

Cyrsiau Hyfforddi

Enw'r cwrs	Nifer a gwblhawyd yn ystod y cyfnod
Cynllunio a Datblygu Busnes	11
Marchnata eich Busnes	11
Cadw Cofnodion Ariannol a TAW	9
Cyflwyniad i Gynllunio Busnes	5
Cynllunio i Arallgyfeirio ar y Fferm	4

Rhaglen TGCh

LEFEL 1

Cwrs hyfforddiant 6 wythnos = **45** o unigolion wedi derbyn hyfforddiant

LEFEL 2

Hyfforddiant un i un = **133** o unigolion wedi derbyn hyfforddiant

LEFEL 3

Gweithdai = **722** o unigolion wedi derbyn hyfforddiant

Roedd themâu'r gweithdai'n cynnwys:

HYFFORDDIANT CYFRYNGAU CYMDEITHASOL



CYFLWYNIAD I DECHNOLEG DRŴN



MESUR I REOLI



GWNEUD TRETH YN DDIGIDOL –YR OPSIYNAU



Rhai o uchafbwyntiau ein llwyfannau cyfryngau cymdeithasol

Am ddiwrnod! Dyma rai o uchafbwyntiau'r digwyddiad Arloesi ac Arallgyfeirio heddiw. Beth oedd yr uchafbwynt i chi?

Os na fu modd i chi ymuno â ni, gallwch wyluo pob seminar ar ein sianel YouTube! (cofiwch i danysgrifio) <http://bit.ly/2ln8PbS>

Diolch yn fawr i'n holl siaradwyr a stondinwyr:

Nifer o wyladau: **12,953**
Sylwadau, hoffiadau a rhannu: **254**
Nifer o gliciadau: **1,120**

